# Cronfa i Gymru

## Meini Prawf Cyllid: Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol

Sefydliad Cymunedol Cymru

PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

POSTCODE COMMUNITY TRUST

Mae Cronfa i Gymru yn gronfa gwaddol gymunedol genedlaethol, sy'n cael ei rheoli a'i hyrwyddo gan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Mae'n rhaglen hybu dyngarwch a rhoi grantiau sy'n codi arian gan bobl a sefydliadau ledled Cymru, y DU a thramor sydd am 'roi yn ôl' i gefnogi a chryfhau cymunedau lleol: mae'r Gronfa i Gymru yn cysylltu pobl sy'n poeni ac achosion pwysig.

Mae'r gronfa ar hyn o bryd yn cael ei chefnogi drwy bartneriaeth gyda People's Postcode Lottery, ochr yn ochr â chyfraniad gan Tiny Rebel and Goodwash.

Mae Cronfa i Gymru yn agored i elusennau a mudiadau gwirfoddol bach, lleol, dan arweiniad y gymuned (e.e. cymdeithasau, mentrau cymdeithasol, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a chlybiau), gydag incwm blynyddol o lai na £100,000.

Canlyniadau'r Gronfa:

- Gwella cyfleoedd pobl mewn bywyd,
- Adeiladu cymunedau cryfach,
- Gwella amgylcheddau gwledig a threfol,
- Annog pobl a chymunedau iachach a mwy egnïol,
- Gwarchod treftadaeth a diwylliant.

## Grantiau ar gael

Mae grantiau rhwng £500 a £2,500 y flwyddyn am hyd at dair blynedd, ar gael i sefydliadau y mae eu ceisiadau'n cyflawni orau yn erbyn y canlyniadau uchod.

## Pwy all wneud cais?

Mae Cronfa i Gymru yn agored i elusennau a mudiadau gwirfoddol bach, lleol, dan arweiniad y gymuned (e.e. cymdeithasau, mentrau cymdeithasol, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a chlybiau), gydag incwm blynyddol o lai na £100,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Rydym yn croesawu ceisiadau gan sefydliadau nad ydynt erioed wedi derbyn arian o'r Gronfa hon o'r blaen.

Mae'n rhaid i chi fod yn un o'r canlynol:

- Grwpiau gyda chyfansoddiad
- Elusennau Cofrestredig a Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmni cyfyngedig gan warant
- Cwmnïau buddiannau cymunedol
- Mentrau cymdeithasol

Sylwer: Os ydych chi'n Gwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) sydd wedi'i gofrestru yn ystod y 18 mis diwethaf, nid ydych yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn. Os byddwch yn gwneud cais o fewn eich 18 mis cyntaf o fasnachu, bydd eich cais yn cael ei wrthod.

# Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Os dyfernir grant aml-flwyddyn, rhaid gwario'r flwyddyn gyntaf o grant o fewn blwyddyn i dderbyn ein llythyr cynnig.
- Mae angen i fuddiolwyr grŵp fyw yng Nghymru.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

# Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd i dalu am gostau rhedeg sefydliadol fel yswiriant, rhent, llywodraethu, codi arian, marchnata a chyfathrebu ac ati, yn enwedig yn y tymor hir.

Felly, gall grwpiau nawr wneud cais am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu set o gyfrifon blynyddol neu ddalen incwm/gwariant, am o leiaf y 12 mis diwethaf. Rhaid i'r swm y gwneir cais amdano fod yn llai nag 20% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £2,500 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £12,500. Byddwn hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect blwyddyn neu eitem gyfalaf fach.

Rydym yn bwriadu gwneud o leiaf chwe grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Dalier sylw - bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Byddwn yn blaenoriaethu sefydliadau a phrosiectau sy'n cynyddu hygyrchedd i'r rhai sy'n cael eu tanwasanaethu neu'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cefnogi unigolion o gefndiroedd nodwedd gwarchodedig 2010 Deddf Cydraddoldeb ac unigolion o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu cyllid i grwpiau sydd heb dderbyn cefnogaeth gan Gronfa Cymru o'r blaen.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015




Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried
effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.
Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.